# CYNGOR SIR

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN, Dydd Mawrth, 1 Rhagfyr 2015 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Raymond Bartley, Brian Blakeley, Jeanette Chamberlain-Jones, Bill Cowie, Meirick Davies, Richard Davies, Stuart Davies, Peter Duffy, Peter Arnold Evans, Hugh Evans, Carys Guy, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Colin Hughes, Rhys Hughes, Hugh Irving, Alice Jones, Huw Jones, Geraint Lloyd-Williams, Jason McLellan, Barry Mellor, Win Mullen-James, Bob Murray, Dewi Owens, Paul Penlington, Pete Prendergast, Arwel Roberts, Gareth Sandilands, Barbara Smith, David Smith, Bill Tasker, Julian Thompson-Hill, Cefyn Williams, Cheryl Williams a/ac Huw Williams

## HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (MM), Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (GQ), Pennaeth Dros Dro Cyllid ac Asedau (JG), Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (GB), Prif Swyddog Cyllid (RW), Rheolwr Cynllunio Datblygu a Pholisi (AL), Swyddog Arweiniol - Tai Cymunedol (GD) a Gweinyddwr y Pwyllgor (SLW)

Agorwyd y cyfarfod gan Bennaeth Gwasanaethau'r Gyfraith, AD a Democrataidd gydag eglurhad bod y Cadeirydd, y Cynghorydd Gwyneth Kensler, ar wyliau. Yn anffodus, nid oedd yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Ann Davies, yn gallu dod i'r cyfarfod gan ei bod yn sâl.

Cynigiodd y Cynghorydd Arwel Roberts y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod, a chafodd ei eilio gan y Cynghorydd Bill Cowie. Cynhaliwyd pleidlais drwy godi dwylo, a chytunwyd yn unfrydol y dylai'r Cynghorydd Meirick Lloyd Davies fod yn Gadeirydd ar gyfer cyfarfod y Cyngor Llawn.

Diolchodd y Cynghorydd Lloyd Davies i bawb am y fraint o fod yn Gadeirydd a chroesawodd bawb i'r cyfarfod.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Ian Armstrong, Joan Butterfield, Ann Davies, Bobby Feeley, Pat Jones, Gwyneth Kensler, Peter Owen, Merfyn Parry, Anton Sampson a/ac Joe Welch

## 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies gysylltiad personol yn eitem 7, Strategaeth Dai Ddrafft Sir Ddinbych.

Datganodd y Cynghorydd Cheryl Williams gysylltiad personol yn eitem 7 - Strategaeth Dai Ddrafft Sir Ddinbych ac Eitem 8 – Polisi Tai Cymunedol.

## 3 MATERION BRYS FEL Y CYTUNWYD ARNYNT GAN Y CADEIRYDD

Dim Materion Brys.

Yn y fan hon, talodd y Cynghorydd Huw Jones deyrnged i'r pump o bobl a oedd wedi colli eu bywydau yng Nghorwen yn ddiweddar. Anfonwyd meddyliau at deithiwr un o'r ceir a oedd yn hynod o sâl yn ysbyty Stoke hefyd. Cydymdeimlwyd â theuluoedd a chyfeillion yr holl bobl sy'n ymwneud â'r rhai a anafwyd ac a fu farw. Mynegodd y Cynghorydd Jones ei ddiolch i'r holl Gynghorwyr, Swyddogion ac aelodau'r cyhoedd o bob rhan o Gymru a oedd wedi anfon eu dymuniadau da i gymuned Corwen ar yr adeg eithriadol o drist hwn.

Mynegodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies, gydymdeimlad dwysaf y Cyngor i bawb a oedd yn rhan o'r digwyddiad a chafwyd munud o dawelwch fel teyrnged i'r rhai a oedd wedi colli eu bywydau.

Yn dilyn y munud o dawelwch, hysbyswyd yr aelodau bod y Cynghorydd Ian Armstrong yn sâl yn yr ysbyty ar hyn o bryd, a dymunwyd yn dda i'r Cynghorydd Armstrong a'i deulu.

## 4 DYDDIADUR Y CADEIRYDD

Roedd rhestr o ddigwyddiadau dinesig a fynychwyd gan y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd ar gyfer y cyfnod rhwng 15 Hydref 2015 a 13 Tachwedd 2015 wedi'i dosbarthu cyn y cyfarfod.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn y rhestr o ymrwymiadau dinesig a fynychwyd gan y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd.*

## 5 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 7 Hydref 2015.

Tudalen 12 – Cyfeiriodd y Cynghorydd Alice Jones at y cais gan Brif Weithredwr Dros Dro BIPBC am unrhyw dystiolaeth o ofal gwael. Cadarnhawyd y byddai unrhyw wybodaeth am dystiolaeth yn cael ei rhoi naill ai i'r Prif Weithredwr neu i Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd, ac y byddent yn pasio'r wybodaeth ymlaen i'r Prif Weithredwr Dros Dro ar ei rhan.

Yna, gofynnodd y Cynghorydd Jones am gasgliad i'r cyfarfod ar 7 Hydref, 2015.

Eglurodd y Prif Weithredwr ei fod wedi crynhoi ar ddiwedd y cyfarfod fel a ganlyn:

- Cyfeirio'r mater o ofal sylfaenol ym Mhrestatyn at y Pwyllgor Craffu ym mis Chwefror 2015

- Pryder yr aelodau ynghylch Ysbyty Brenhinol Alexandra yn Y Rhyl. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr ei fod wedi mynychu cyfarfod gyda Phrif Weithredwr Dros Dro BIPBC a swyddogion, ac roedd wedi cael sicrwydd bod BIPBC yn ymrwymedig i adeiladu'r ysbyty yn Y Rhyl o hyd. Roedd y Bwrdd Iechyd yn ailystyried y posibilrwydd o ddarpariaeth ac wedi cytuno i gyfarfod eto â'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau cyn gwyliau'r Nadolig.
- Roedd yr Aelodau wedi cael gwybod am HASCAS (Gwasanaeth Ymgynghori Iechyd a Gofal Cymdeithasol) ac yn disgwyl am adroddiad gan y Gwasanaeth yn gynnar yn 2016. Byddai'r Prif Weithredwr yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf gan Brif Weithredwr Dros Dro BIPBC yn y cyfarfod cyn y Nadolig.
    - Byddai'r wybodaeth yn cael ei rhannu gyda Grŵp Aelodau Ardal y Rhyl ac yna ei chyflwyno mewn Pwyllgor Craffu. Gofynnodd y Cynghorydd Alice Jones i'r wybodaeth gael ei rhannu gyda holl Grwpiau Ardal yr Aelodau. Cadarnhaodd y Cadeirydd y caiff yr wybodaeth ei rhoi i holl Grwpiau Ardal yr Aelodau.

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 20 Hydref 2015.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr uchod, cadarnhau cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 7 Medi 2015 a 20 Hydref 2015 fel cofnod cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.*

## 6 CYLLIDEB 2016/17 – NEWYDDION DIWEDDARAF

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Gyllid ac Asedau, y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, adroddiad y gyllideb ar gyfer 2016/2017 (a ddosbarthwyd yn flaenorol).

Nododd yr adroddiad y sefyllfa ddiweddaraf o ran darparu cyllideb refeniw 2016/2017 a thynnodd sylw at y mesurau sy'n cael eu cymryd yn rhan o Gam 5 y broses gyllideb dwy flynedd bresennol. Tynnodd yr adroddiad sylw hefyd at y buddsoddiad y gwnaeth y cyngor mewn seilwaith allweddol a gwelliannau ledled y sir dros gyfnod parhaus o ostyngiadau mewn cyllid. Roedd yr adroddiad hefyd yn amlinellu sut roedd strategaeth cyllideb y cyngor wedi diogelu gwasanaethau allweddol tra'n rheoli sefyllfa ariannol heriol.

Roedd Llywodraeth Cymru i fod i gyhoeddi ei gyllideb ar 8 Rhagfyr gyda Setliad Dros Dro Llywodraeth Leol yn dilyn ar 9 Rhagfyr. Byddai hyn yn gwneud y sefyllfa ariannu ar gyfer 2016/17 yn fwy eglur. Byddai cyhoeddi Setliad Dros Dro yn cynnwys prif ffigur, ond efallai na chaiff effaith newidiadau i ffrydiau cyllid grant refeniw eu cyhoeddi ar yr un pryd.

Byddai cyhoeddi Setliad Llywodraeth Leol yn hwyr yn golygu efallai y bydd angen addasu amserlen y gyllideb. Roedd yn rhaid i'r Cyngor bennu ei gyllideb mewn pryd er mwyn caniatáu ar gyfer cynhyrchu a dosbarthu biliau Treth y Cyngor ym mis Mawrth 2016. Yn dibynnu ar lefel y Setliad Dros Dro, roedd yn debygol y gall fod angen cyfarfod ychwanegol o'r Cyngor Llawn i gwblhau'r gyllideb ym mis Chwefror 2016.

O ystyried lefel o ansicrwydd ynghylch y setliad refeniw, canolbwyntiodd gweithdai cyllideb diweddar i aelodau ar ystod o gynigion y bydd angen eu gweithredu efallai yn 2016/2017. Er mwyn cynnal momentwm a chyfyngu ar risgiau ar ddiwedd y broses, fe eglurwyd y byddai set o fesurau yn cael eu cyflwyno i'r cyngor er gwybodaeth ym mis Rhagfyr er mwyn gallu nodi effaith y gyllideb.

Ni fu cyfeiriad clir ynghylch a fyddai cyfarwyddebau i ddiogelu ysgolion a chyllidebau eraill. Ers 2011 bu addewid gweinidogol i amddiffyn cyllidebau ysgolion yng Nghymru. Er mwyn cydymffurfio â'r addewid i 'amddiffyn' cyllidebau ysgolion, dylai'r cyngor fod wedi cynyddu'r cyllid i ysgolion o £3.4m dros y pedair blynedd diwethaf. Yn wir, roedd cyllid ysgolion yn Sir Ddinbych wedi cynyddu o £6.3m.

Cafwyd trafodaeth bellach a chodwyd y pwyntiau canlynol:

- Roedd y Pwyllgor Craffu wedi codi mater adolygiad a chyllid Ysgol Rhuthun ynghylch dwy ysgol newydd a oedd i'w hadeiladu. Yr hyn a ddaeth i'r amlwg yn ddiweddar oedd bod dogfen newydd wedi ei pharatoi ar gyfer Llywodraeth Cymru a oedd yn awgrymu y dylai'r holl gynlluniau (Ysgol y 21ain Ganrif, Adolygiad Rhuthun, ac Ysgol Ffydd) yn cael eu cynnwys fel un pecyn. Byddai'r cynllun yn cael ei ariannu 50% gan Gyngor Sir Ddinbych a 50% gan Lywodraeth Cymru. Disgwylir cael ychwanegiad o £6m gan Lywodraeth Cymru tuag at y pecyn. Cadarnhaodd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Cymunedau ei fod wedi ysgrifennu at Aelodau'r Cynulliad ynglŷn â materion ysgol.
- Cytundeb Menter Cyllid Preifat – cafwyd llongyfarchiadau yn dilyn terfynu'r Cytundeb Menter Cyllid Preifat. Disgwyliwyd camau cadarnhaol ar gyfer dyfodol yr adeiladau.
- Gwnaethpwyd cais am gyflwyniad cliriach o'r ffigurau i gynnwys manylion am ddadansoddiad, benthyca a ffigurau pellach ar gyfer cronfeydd wrth gefn. Cytunodd yr holl aelodau i'r cais am gynllun mwy manwl.
- Byddai'r setliad ar gyfer cyllideb 2016/2017 gan Lywodraeth Cymru ar gyfer un flwyddyn yn unig. Cafwyd sicrwydd bod disgwyl setliadau tair blynedd yn ar ôl y flwyddyn honno.

***PENDERFYNWYD*** *bod Aelodau'r Cyngor: -*

*(i) yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth gyflwyno cyllideb 2016/2017 a'r camau arfaethedig i gwblhau'r broses.*

*(ii) nodi nad yw'r rhan fwyaf o arbedion a wnaed hyd yn hyn yn y broses gyllideb ddwy flynedd wedi gosod toriadau i wasanaethau neu gynnydd mewn costau*

*(iii) nodi bod y buddsoddiad cyfalaf o bron i £200 miliwn ar brosiectau a gwblhawyd ac a gynlluniwyd ar draws y sir o 2012 yn ymestyn i 2019.*

## 7 DRAFFT O STRATEGAETH TAI SIR DDINBYCH

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Thai, y Cynghorydd Barbara Smith, yr Adroddiad Drafft ar Strategaeth Dai Sir Ddinbych (a ddosbarthwyd yn

flaenorol) i geisio cymeradwyaeth yr Aelodau i fabwysiadu'r Strategaeth Dai Ddrafft a chymeradwyo'r Cynllun Gweithredu cyfatebol.

Ar y pwynt hwn, diolchodd yr Aelod Arweiniol i bawb a oedd wedi gweithio ar y Strategaeth Dai Ddrafft, gan gynnwys Angela Loftus a'i Thîm, ynghyd ag Aelodau'r Grwpiau Tasg a Gorffen.

Roedd cynnwys y Strategaeth Dai a'r Cynllun Gweithredu Drafft yn cynrychioli uchafbwynt yr ymgynghoriad â phartneriaid, gwaith gyda swyddogion ar draws y Cyngor a mewnbwn gan Aelodau.

Roedd mynediad at dai o ansawdd da yn flaenoriaeth gorfforaethol allweddol a byddai datblygu Strategaeth Dai glir a chadarn yn darparu'r fframwaith ar gyfer holl swyddogaethau perthnasol y Cyngor i fynd i'r afael â'r flaenoriaeth yn llwyddiannus. Bwriad y Strategaeth Dai oedd darparu datganiad clir o weledigaeth a nodau'r Cyngor ar gyfer tai yn y Sir am y pum mlynedd nesaf.

Roedd y weledigaeth strategol fel a ganlyn: -
"Mae pawb yn cael ei gefnogi gyda balchder i fyw mewn cartrefi sy'n diwallu eu hanghenion, o fewn y cymunedau bywiog a chynaliadwy y mae'n uchelgais gan Sir Ddinbych eu creu."

O fewn y Strategaeth, i sicrhau cysondeb, roedd saith egwyddor lleol: -

- Cefnogi'r Economi Lleol – drwy adeiladu tai ac adfywio
- Lleihau anghydraddoldebau – drwy geisio sicrhau bod cartrefi priodol ar gael i bawb a bod pobl fregus yn cael eu cefnogi
- Ymgysylltu a chynnwys – gyda phartneriaid i helpu i ddarparu cartrefi priodol ar y cyd a gweithio gyda thrigolion i adfywio eu cymdogaethau
- Cynaliadwyedd - cefnogi marchnad dai gynaliadwy a sicrhau cymunedau cynaliadwy
- Yr iaith Gymraeg a diwylliant – ystyried datblygiadau newydd, a'u hybu
- Monitro ac adolygu – paratoir adolygiad blynyddol i amlinellu cynnydd ac unrhyw newidiadau i gamau y cytunwyd arnynt
- Canolbwyntio ar ganlyniadau – bydd y strategaeth yn canolbwyntio ar ddarparu'r canlyniadau a nodwyd.

Bu i'r Strategaeth nodi pum "thema" a oedd yn feysydd blaenoriaeth i'w rhoi ar waith, ac roedd y rhain yn ffurfio craidd y Strategaeth. Y pum thema oedd: -

- Mwy o gartrefi i ddiwallu'r angen a'r galw lleol
- Creu cyflenwad o gartrefi fforddiadwy
- Sicrhau cartrefi diogel ac iach
- Cartrefi a chymorth i bobl ddiamddiffyn, a
- Hyrwyddo a chefnogi cymunedau

Cafwyd trafodaeth ddwys a chodwyd y pwyntiau canlynol:-

- Pa mor gyraeddadwy yw dyddiadau targed. Roedd rhai o'r camau eisoes ar y gweill ac roedd rhai bron wedi'u cyflawni. Roedd y camau i'w hadolygu a byddai sylw'n cael eu rhoi iddynt pe bai posibilrwydd i'r llinell amser lithro.

- Roedd nifer o gamau gweithredu o dan Thema 2 - Tai Fforddiadwy. Roedd swyddogion yn sôn am dai cyngor a thai cymdeithasol i gyd yn cael eu grwpio gyda'i gilydd. Roedd yr Aelodau Arweiniol i fod yn gyfrifol am y Cynllun Gweithredu a byddai'n cael ei ddwyn i gyfrif. Awgrymwyd y dylai unrhyw faterion nad oedd yn cael eu cyflwyno gan unrhyw Aelod yn cael eu rhoi gerbron Pwyllgor Craffu.
- O ran Cam Gweithredu 2.10, gofynnodd y Cynghorydd Jason McLellan bod " cynllun busnes yn cael ei ddatblygu er mwyn sicrhau bod mwy o dai Cyngor yn cael eu darparu" – bydd yr wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei rhoi i'r Cyngor ym mis Ebrill 2016.
- Hyrwyddo iaith a diwylliant Cymru – os bydd unrhyw gais dros faint penodol, byddai'n ofynnol i'r datblygwr gyflwyno Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg. Byddai'r Strategaeth Dai Ddrafft ei hun, unwaith y bydd wedi'i chymeradwyo, yn cael ei chyfieithu a'i chyhoeddi yn y Gymraeg hefyd.
- Y niferoedd presennol ar y rhestr aros am dai oedd: -
    - 1915 o geisiadau cyffredinol
    - 264 o geisiadau trosglwyddo
    - 28 yn ddigartref
- Cartrefi Gwag - Datblygu Cynllun Cyflawni Tai Gwag y Cyngor, ymchwilio mecanweithiau arloesol ar gyfer dod â chartrefi gwag yn ôl i ddefnydd a gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu mentrau newydd. Roedd y perfformiad yn eithaf da o ran gweithio ar gartrefi gwag.
- Roedd gan 24% o'r boblogaeth salwch neu anabledd a oedd yn cyfyngu ar weithgarwch ac, oherwydd hyn, byddai’r math o dai a fyddai ar gael yn hanfodol
- Cafodd 176 o eiddo eu hadeiladu rhwng 2014/2015 a oedd 17 yn fwy na 2013/2014
- Roedd gan y Cyngor ddyletswydd i gynnal a chyflwyno Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr cyn mis Chwefror 2016. Roedd hyn yn ofyniad statudol a byddai'n darparu gwybodaeth gyfredol am anghenion llety sipsiwn a theithwyr yn Sir Ddinbych.
- Yn ystod y deng mlynedd diwethaf, roedd ychydig o dan 500 o gartrefi wedi’u darparu yn Sir Ddinbych.

Mynegwyd diolch gan Aelodau i'r Aelodau Arweiniol a'r Swyddogion am eu holl waith ar y Strategaeth Dai Ddrafft.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr uchod, bod y Cyngor yn mabwysiadu Strategaeth Dai Sir Ddinbych ynghyd â Chynllun Gweithredu drafft cysylltiedig.*

## 8 POLISI TAI CYMUNEDOL - DIWEDDARIADAU AR GYFER CYMERADWYO

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Thai, y Cynghorydd Barbara Smith, yr adroddiad ar Bolisi Tai Cymunedol (a ddosbarthwyd eisoes) i geisio cymeradwyaeth yr Aelodau i adolygu'r polisïau canlynol:

(i) Polisi Dyraniadau
(ii) Polisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, a
(iii) Polisi Tenantiaeth Rhagarweiniol.

Polisi Dyraniadau

Roedd y polisi Dyraniadau angen ei adolygu a'i ddiweddaru i adlewyrchu deddfwriaeth newydd a chod ymarfer newydd a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru.

Er bod y polisïau a ddiweddarwyd yn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, bu i'r Cabinet gymeradwyo mabwysiadu SARTH (Un Llwybr Mynediad at Dai) ar 14 Ionawr, 2014, a oedd yn cynnwys symud oddi wrth y system dyrannu pwyntiau presennol at system "bandio" angen am dai. Roedd y polisi hwn felly yn fesur dros dro i sicrhau cydymffurfiaeth â'r rhwymedigaethau cyfreithiol hyd nes y gweithredir SARTH yn Sir Ddinbych.

Polisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

Roedd y polisi hwn wedi cael ei ddiweddaru i adlewyrchu cyflwyno'r Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a Phlismona 2014. Nid oedd unrhyw newidiadau sylfaenol i ddelio ag ymddygiad niwsans, fodd bynnag roedd atebion cyfreithiol cyffredin fel y Gorchymyn ymddygiad gwrthgymdeithasol (ASBO) wedi'u disodli. Cafodd y polisi ei ddiweddaru i adlewyrchu'r newidiadau a gellid ystyried yr holl bwerau fel rhan o'r gweithgareddau gorfodi.

Polisi Tenantiaeth Rhagarweiniol

Roedd y Polisi Tenantiaeth Rhagarweiniol wedi cael ei ysgrifennu gyda chymorth Cyfreithwyr Whiteheads er mwyn gwella eglurder y Polisi a'r weithdrefn gyfredol; tra'n sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cyngor yn cymeradwyo'r polisïau canlynol:*

*(i) Polisi Dyraniadau*
*(ii) Polisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, a*
*(iii) Polisi Tenantiaeth Rhagarweiniol.*

## 9 IS-DDEDDFAU CERBYDAU HACNI DIWYGIEDIG ARFAETHEDIG

Cyflwynodd Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus, y Cynghorydd David Smith, yr adroddiad Diwygiedig Arfaethedig ar Is-ddeddfau Cerbydau Hacni (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ar gyfer cymeradwyaeth yr Aelodau.

Y rheswm am yr adroddiad oedd ceisio mabwysiadu is-ddeddfau diwygiedig a chyfredol i sicrhau dull teg, tryloyw a chyson wrth benderfynu ar unrhyw faterion gorfodi cerbyd hacni.

Y rheswm dros ddod â'r adroddiad i'r Cyngor Llawn oedd bod gwneud is-ddeddfau o dan a68 o Ddeddf Cymalau Heddlu Tref 1847 yn swyddogaeth y Cyngor (yn hytrach na swyddogaeth Weithredol) o dan y Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007.

***PENDERFYNWYD**:-*

*(i) Bod aelodau wedi cytuno i fabwysiadu Is-ddeddfau Enghreifftiol yr Adran Drafnidiaeth, fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad hwn.*

*(ii) Cytuno i ganiatáu i Swyddogion anfon yr Is-ddeddfau Enghreifftiol i Lywodraeth Cynulliad Cymru i'w cadarnhau.*

**10 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor (dosbarthwyd eisoes).

Mis Ionawr 2016 - ad-drefnu Llywodraeth Leol - gofynnwyd am hyn gan y Cynghorydd Jason McLellan.

Mis Ebrill 2016 - Ychwanegu adroddiad pellach ar elfen o strategaeth dai fel y cytunwyd yn gynharach yn y cyfarfod. Datblygu cynllun busnes er mwyn sicrhau bod mwy o dai cyngor yn cael eu darparu - gofynnwyd am hyn gan y Cynghorydd Jason McLellan.

***PENDERFYNWYD** yn amodol ar yr uchod y dylid cymeradwyo a nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor.*

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.30 pm.**